



## Coed Nadolig

### Yn y rhifyn hwn:

Ychwanegu Gwerth ar gyfer y Nadolig	2
Ffyngau Meddyginiaethol	2
Rhinweddau meddyginiaethol coed Nadolig	3
Defnyddio Sglodion Coed fel Compost	3
Staff Newydd yn CALU	3
Digwyddiadau i Ddod	4
Ffeithiau am CALU	4

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y coed Nadolig a gynhyrchir yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol. Rhwng 2001 a 2005, cafwyd cynnydd o 48% mewn gwerthiant coed Nadolig a dyfir ym Mhrydain. Fodd bynnag, caiff tua miliwn o goed eu mewnfario o hyd o gyfandir Ewrop, yn arbennig o Ddenmarc.

Gyda defnyddwyr yn gofyn am gynnyrch lleol, ceir cyfleoedd marchnata da ar gyfer sefydlu planhigfeydd coed Nadolig. Fodd bynnag, mae ar blanhigfeydd coed Nadolig angen drwy gydol y flwyddyn er mwyn cael cynnyrch o ansawdd uchel. Mae ar dyfwyr angen rhagwelediad ac amynedd hefyd, gan ei bod yn cymryd rhwng saith a deng mlynedd nes y gellir cynaeafu'r

cnwd cyntaf. Her arall yw'r ffasiynau newidiol mewn rhywogaethau coed Nadolig.

Mae'r prif rywogaethau a dyfir ym Mhrydain yn cynnwys *Noble fir*, *Nordman fir*, *Fraser fir*, *Norway spruce* a *Scots pine*. Mae'r pellter rhwng bob un yn amrywio o 1.0m x 1.0m a 1.2m x 1.2m, gan ddibynnu ar y rhywogaeth. Er mwyn sicrhau cnwd da, bydd angen gallu mynd at y coed, yn y rhan fwyaf o achosion ar gyfer tocio a thorri.

Ceir nifer o ddewisiadau ar gyfer sut i farchnata'r cynnyrch: Gellir gwerthu'r coed wedi eu torri; mewn potiau; neu fel coeden yr ydych yn ei thorri (neu ei chloddio) eich hun. Dylid penderfynu ar y llwybr i'r farchnad cyn i chi ddechrau tyfu.



Am wybodaeth fanylach, mae CALU wedi cynhyrchu taflen dechnegol ar blannu, rheoli a marchnata planhigfeydd coed Nadolig. Gellwch lwytho'r daflen i lawr o'n tudalen gartref [www.calu.bangor.ac.uk](http://www.calu.bangor.ac.uk) neu ffonio'r swyddfa am gopi papur: 01248 680450.

### CALU's subject areas:

- Garddwriaeth
- Bio-egni
- Da Byw Amgen
- Cnydau Âr
- Cnydau nad ydynt yn rhai bwyd

## Ddefnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel - Gweithdy yn y De

Ar ôl llwyddiant y gweithdai ar draws gogledd Cymru, bwriedir cynnal tri gweithdy ychwanegol yn ne Cymru. Mae'r gweithdai ar ffermydd yn rhoi gwybodaeth i ffermywyr a thyfwyr am sut i ddefnyddio plaladdwyr yn ddiogel ac yn effeithiol. Bwriedir cynnal gweithdai yn 2009 yn y manau canlynol -

Coleg Gwent - 11 Chwefror 2009  
Radyr, Brynbuga  
Sir Fynwy

Fferm Coleg Gelli Aur - 4 Mawrth 2009  
Gelli Aur  
Caerfyrddin

Am ragor o wybodaeth ac i archebu lle, ffoniwch CALU ar 01248 680450

## Ychwanegu Gwerth ar gyfer y Nadolig



Codwyd rhai cwestiynau diddorol prisio cynnyrch a phwysigrwydd lliw yn y digwyddiad 'Ychwanegu Gwerth at y Nadolig' a gynhaliwyd yng Ngholeg Garddwriaeth Cymru ar 26 Tachwedd 2008. Mae'r ymadrodd 'mae lliw yn gwerthu' yn hanfodol bwysig yn ystod y gaeaf, pan fydd y rhan fwyaf o blanhigion yn edrych yn ddi-liw. Gall rhyw ruban lliwgar neu drilliw blodeuog rhoi hwb i werthiant yn y ganolfan arddio. Argymhellodd Tim Ashton o'r *Horticulture Trades Association* (HTA) y gall labelu cynnyrch a dyfir ac a gynhyrchir yn lleol gyda lleoliad cynhyrchu gynyddu gwerthiant. Mae gan Ganolfan Arddio Llaneurgain fantais ychwanegol, sef bod Meithrinfa Llaneurgain yn ei chyflenwi, sydd ar safle Coleg Garddwriaeth Cymru hefyd. Bydd dweud wrth y cwsmer o ble y daeth y plan-

higion yn calonogi'r cwsmer bod yr hyn y dewisant ei brynu yn helpu'r economi lleol. Gellir cael cynnydd mewn gwerthiant hefyd o blanhigion sydd wedi'u labelu fel 'Argymhellir gan y Ganolfan Arddio' neu 'Cynnig Arbennig'. Gall hyn roi sicrwydd i'r cwsmer eu bod yn prynu planhigyn neu gynnyrch newydd.

Awgrymodd Robert Mackey, darlithydd yn y coleg, y dylid edrych ar brisiau planhigion yn rheolaidd oherwydd efallai bod planhigion yn cael eu gadael mewn gwely arddangos oherwydd bod prisiau anghywir arnynt. Mae aildrefnu arddangosfeydd a dod a phlanhigion newydd i mewn yn ffordd dda o gadw arddangosfeydd yn ddeniadol i gwsmeriaid rheolaidd.

## Ffyngau Coetir Meddyginiaethol

Gelwir rhai ffyngau sy'n byw ar goed yn 'polypores' (Basidiomycetes) oherwydd y tyllau mân niferus ar waelod corff y ffrwyth. Defnyddir ffyngau *Polypore* yn aml at ddbenion meddyginiaethol, yn arbennig mewn gwledydd dwyreiniol. Caiff ffyngau eu crybwyll mewn cyffurlyfrau Tsieineaidd sy'n dyddio'n ôl i'r drydedd ganrif. Mae pedwar math yn benodol yn dal i gael eu hystyried fel eu bod yn perthyn i'r dosbarth uchaf o feddyginiaethau, sy'n hybu iechyd da yn gyffredinol. Y rhain yw'r *polypores* sy'n pydru coed, sef *Ganoderma lucidum* (Ling Zhi), *Polyporus umbellatus* (Zhu Ling), ac *Wolfiporia cocos* (Fu Ling) a'r pathogen pryfed *Cordyceps sinensis*.

Gan ddefnyddio'r cofnodion *polypore* (Aphyllphorales, a.k.a Polyporales) o *mycota* of *North West Wales* Charles Aron (2005), canfuwyd bod gan nifer fawr o'r ffyngau hyn neu rywogaethau sy'n perthyn yn agos, gorff eang o lenyddiaeth wyddonol sy'n trafod eu cyfansoddion bio-actif ac effeithiau'r cyfansoddion hyn. Daw'r rhywogaethau hyn o'r genera – *Antrodia*, *Fomes*, *Ganoderma*, *Grifola*, *Laetiporus*, *Meripilus*, *Piptoporus*, *Polyporus*, *Sparassis* a *Trametes*.



Polysaccharides yw'r cyfansoddion bio-actif a geir yn y ffyngau hyn, sef moleciwlau siwgr cymhleth. Ceir hyd i foleciwlau Polysaccharide yn y waliau celloedd ffwngauidd sy'n cynnwys citin. Ni all fodau dynol dreulio citin; eu hechdynnu â dŵr poeth yw'r unig ffordd syml a brofwyd i dorri waliau'r celloedd citinaidd i lawr, a rhyddhau nifer fawr o'r polysaccharides bio-actif, yn gyfan a heb eu difrodi. Credir bod y cyfansoddion polysaccharide hyn yn twyllo'n system imiwedd i greu ymateb imiwn, a hynny heb unrhyw fgythiad gwirioneddol. Dangoswyd bod yr ymateb hwn yn ysgogi amrywiaeth o ymatebion celloedd effeithwyr imiwn, yn cynnwys cynnydd mewn gweithgarwch macroffag a gweithgarwch y gell T sy'n lladd.

### OEDDECH CHI?"N

#### GWYBOD...

Y rhwydwaith myseliol

*Armillaria bulbosa* o da bridd

Michigan yw biomas mwyaf

(15ha ca 10 000 tunell)

unrhyw organeb byw.

## Rhinweddau meddyginiaethol coed Nadolig

Mae gwyddonwyr ym Mhrifysgol Bangor yn edrych ar echdynnu cemegyn o nodwyddau pin coed Nadolig, y credant a all gwffio fflw adar. Ar hyn o bryd, defnyddir cemegyn o'r enw asid shikimic i gynhyrchu cyffwr i gwffio fflw adar, ac mae'n un o nifer o gyfansoddion a geir yng nghoed pefrwydd Sitka a dyfir ledled Cymru, sy'n creu 30% o fforestydd Cymru yn fras. Mae coed pefrwydd Sitka hefyd yn cynnwys resinau, olewau a fflafonoidau a all helpu i gwffio clefyd y galon; siwgr gyda rhin-

weddau probiotig a rhisgl i'w ddefnyddio mewn cynnyrch iechyd.

Mae ymchwilwyr ym Mangor ar hyn o bryd yn edrych ar ffyrdd o echdynnu'r cyfansoddion hyn ar gyfer y diwydiant cemegol a chredant y gallai fod yn werth miliynau i economi Cymru. Gellid defnyddio unedau distyllu symudol mewn fforestydd yng Nghymru i gasglu'r olewau, neu gellid eu lleoli mewn melinau llifio.

Mae asid Shikimic ar hyn o bryd yn werth rhwng £163 a £327 y

kilo (2.2 lbs) a allai roi heb anferthol i'r sector coed ac ychwanegu gwerth i fforestydd Cymru. Mae B.C Bangor, yr hen Ganolfan BioGyfansoddion, yn amcangyfrif y gallai'r broses ddod â £10 miliwn y flwyddyn i Gymru. Mae'r ymchwil ym Mhrifysgol Bangor a gyllidir gan Woodknowledge Wales (WKW) yn cynnwys cymryd brigau a nodwyddau o'r ffridd ger y Brifysgol a defnyddio stêm a sylweddau organig i echdynnu'r olewau.

### OEDDECH CHI"ŊN GWYBOD ...

*Gall compost gyrraedd tymheredd o hyd at 70 gradd Celsius a gall y tymheredd uchel yma ddiheintio'r compost yn rhannol.*

## Defnyddio Sglodion Coed fel Compost

Grŵp o naw o ffermwyr ger Llanfair Caereinion yw Ffermwyr Pont Bren, ac maent wedi bod yn defnyddio sglodion coed fel gwelyau i anifeiliaid ers chwe blynedd. Cynhyrchir y sglodion coed o goed gwastraff, llwyni a rheolaeth coetiroedd o safleoedd cyfagos. Caiff y sglodion coed a ddefnyddiwyd ar gyfer gwelyau i anifeiliaid ei ridyllu, a chymysgir

y deunydd mawr gyda sglodion coed ffres, a'i aildefnyddio fel gwelyau i wartheg. Eir â'r deunydd manach sy'n weddill i safle'r feithrinfa i'w ddefnyddio fel cyfrwng tyfu.

Mae Aled Morris, aelod o'r grŵp tyfwyr, wedi bod yn defnyddio'r sglodion coed wedi'u compostio fel cyfrwng tyfu mathau brodorol o goed. Mae'r feithrinfa fasnachol wedi'i lleoli

300m o uchder ac mae'n cyflenwi amrywiaeth o fathau o lwyni a choed. Mae'r hadau a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu'n cael eu casglu'n lleol.

Am ragor o wybodaeth am sglodion coed wedi'u compostio, edrychwch ar daflen dechnegol CALU 050104: sglodion coed ar gyfer gwelyau anifeiliaid a chompost.



## Staff Newydd yn CALU

Ymunodd Nico Jenkins â thîm CALU yng Nghanolfan Ymchwil Henfaes fis Tachwedd. Gyda gradd gyntaf mewn Seicoleg, cwblhaodd Nico MSC yn ddiweddar ym Mhrifysgol Bangor mewn Cadwraeth a Rheolaeth Tir. Roedd traethawd hir ei gradd meistr yn bapur adolygu a oedd yn cysylltu ffyngau coetir a geir yng ngogledd orllewin Cym-

ru gydag ymchwil i rinweddau meddyginiaethol y rhywogaethau hyn neu rai tebyg (gweler yr erthygl ar dudalen 2). Yn wreiddiol o dde Cymru, mae Nico wedi gweithio'n wirfoddol ar ffermydd organig yn ne Sbaen a gogledd Portiwgal gan gael profiad mewn cynhyrchu garddwriaethol, compostio, adeiladu morgloddiau a waliau cerrig

sych. Yn ogystal â chadwraeth, mae gan Nico ddiddordeb cryf mewn amaethyddiaeth, ac ar hyn o bryd, mae'n byw ar fferm ddefaid y tu allan i Fangor. Mae ganddi ddiddordeb arbennig mewn popeth yn ymwneud â ffyngau, o ffyngau bwytdwy gourmet, ffyngau capiau cwyr syfrdanol, ffyngau meddyginiaethol a defnyddio ffyngau fel biodanwydd!

## CANOLFAN DEFNYDD TIR AMGEN

Canolfan Ymchwil Henfaes  
Prifysgol Bangor  
Abergwyngregyn  
LLANFAIRFECHAN  
LL33 0LB  
Ffôn: 01248 680 450  
Ffacs: 01248 681730  
E-bost: calu@bangor.ac.uk

[www.calu.bangor.ac.uk](http://www.calu.bangor.ac.uk)

### Yn Cefnogi Defnyddio Tir yn Gynaliadwy



## Digwyddiadau i Ddod

**Dydd Mawrth, 20 Ionawr** – Cwrs Cadw Gwenyn i Ddechreu-wyr, Canolfan Ymchwil Henfaes, Abergwyngregyn

**Dydd Llun, 26 Ionawr** - Grŵp Trafod Âr Sir Benfro

**Dydd Iau, 29 Ionawr** – Cyfarfod Aeron Gogledd Cymru

**Dydd Mawrth, 3 Chwefror** - Cynhyrchu Ffrwythau Meddal, Penlanlas, Rhydyfelin

**Dydd Mercher, 11 Chwefror** – Defnyddio plaladdwyr yn ddiogel - Gweithdy, Coleg Gwent

**Dydd Mercher, 11 Chwefror** – Grŵp Trafod Moch gyda Amy Lowe o Hybu Cig Cymru, Gwesty Nant-y-Ffin, Sir Benfro

**Dydd Iau, 12 Chwefror** – Grŵp Trafod Cig Gafr, Gwesty Nant-y-Ffin, Sir Benfro

**Dydd Mercher, 25 Chwefror** – Digwyddiad Tanwydd Coed, Canolfan Ymchwil Henfaes, Abergwyngregyn, Bangor

**Dydd Mercher, 4 Mawrth** – Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel - Gweithdy, Fferm Coleg Gelli Aur, Sir Gaerfyrddin

**Dydd Mercher, 18 Mawrth** – Cynhyrchu ffrwythau a llysiau ar raddfa fechan a'u marchnata. Coleg Garddwriaeth Cymru, Llan-eurgain.

**Dydd Iau, 26 Mawrth**- cynhyrchu ffrwythau, Fferm Nicholaston, Gŵyr

**Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth am unrhyw rai o ddi-gwyddiadau CALU.**

## Ffeithiau am CALU

Mae CALU'n cyflwyno Rhaglen Datblygu Rheolaeth Tir Cyswllt Ffermio. Mae'r rhaglen yn rhoi gwybodaeth i unrhyw fusnes yng Nghymru sydd â diddordeb yn y canlynol:

- Garddwriaeth
- Bio-egni
- Da Byw Amgen
- Cnydau Âr
- Cnydau nad ydynt yn rhai bwyd


Mae gan CALU dri aelod staff parhaol a rhwydwaith o arbenigwyr cysylltiedig sy'n ymdrin â'r holl feysydd yng nghylch gorchwyl CALU.

GWEITHGAREDDAU CALU:

- Dyddiau agored
- Arddangosiadau
- Tafenni technegol
- Dyddiau hyfforddi
- Erthyglau i'r wasg
- Tafenni gwybodaeth am gnydau
- Adroddiadau project
- Sgyrsiau
- Grwpiau cynhyrchwyr
- Sioeau amaethyddol
- Ilyfyrnau gwybodaeth

CALU PARTNER:

- Prifysgol Bangor
- Coleg Garddwriaeth Cymru
- ADAS Cymru
- Coed Cymru
- Coleg Llysfasi



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig  
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloeedd Gwledig  
The European Agricultural Fund for Rural Development  
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government



FARMING  
connect  
cyswllt  
FFERMIO

08456 000 813